



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ymgynghoriad ar newidiadau i'r Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Diodydd Alcoholaidd ym Mhrydain Fawr

Dogfen ymgynghori

Tachwedd 2022

This document is also available in English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**The Scottish
Government**
Riaghaltas na h-Alba

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ydym ni. Rydyn ni'n gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Rydyn ni'n gweithio gyda'n 33 asiantaeth a chorff hyd braich i gyflawni ein huchelgais o wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd ef gynt.



© Hawlfraint y Goron 2022

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Tîm Diodydd Alcoholaidd,
Seacole Building,
2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb	4
Y cefndir a'r cynigion.....	5
Cynnwys alcohol gwin.....	5
Labelu gwin sydd â mwy nag un math o rawnwin.....	5
Lleoliad y term 'alc/vol' ar gyfer pob cynnyrch diod alcoholaidd.....	6
Y Broses Ddeddfwriaethol	7
Amseriad a hyd yr ymgynghoriad	7

Rhagair

Y Deyrnas Unedig yw un o gynhyrchwyr, allforwyr a mewnforwyr diodydd alcoholaidd mwyaf y byd. Rydyn ni'n allforio mwy o wirodydd nag unrhyw wlad arall yn y byd: mae hyn yn cynnwys allforio mwy o wisgi a jin nag unrhyw wlad arall. Dim ond un wlad arall sy'n mewnforio mwy o win na ni. Mae ein diwydiant domestig yn tyfu, ac mae cefnogi'r diwydiant gwin yn flaenoriaeth i'r economi ac o ran swyddi.

Mae Llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn gweithio i gefnogi buddiannau'r diwydiant diodydd alcoholaidd a defnyddwyr, o ran diwygio rheoleiddio, ond hefyd drwy sicrhau cytundebau masnach uchelgeisiol gyda rhai o'n partneriaid masnachu rhyngwladol mwyaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am ddiwygiadau i gyfraith alcohol a fydd yn helpu i gefnogi'r amcanion hyn.

Crynodeb

[Roedd y Deyrnas Unedig wedi llofnodi cytundeb masnach rydd gyda Seland Newydd](#) ar 28^{ain} Chwefror 2022 ('UK-NZ FTA'). Mae Atodiad 7A i'r Cytundeb yn ymwneud â gwinoedd a gwirodydd wedi'u distyllu. I roi'r cytundeb ar waith, bydd y Deyrnas Unedig yn gwneud tri mân newid i deddfwriaeth ddomestig ynghylch sut y ceir disgrifio a marchnata gwin a diodydd alcoholaidd ar labeli. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gynhyrchwyr ac i werthwyr o ran yr wybodaeth maent yn dewis ei rhoi ar labeli diodydd alcoholaidd a bydd cynhyrchwyr yn cael dewis a ydynt am eu mabwysiadu ai peidio.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar effaith debygol tri chynnig sydd eu hangen i weithredu'r UK-NZ FTA:

- (a) yn gyntaf, mae'r Llywodraethau'n cynnig y dylid caniatáu i gynnyrch gwin ddangos cryfder alcoholaidd i un lle degol;
- (b) yn ail, mae'r Llywodraethau'n cynnig y caiff y term 'alc/vol' ymddangos yn syth ar ôl y ffigur cynnwys alcohol sy'n cael ei ddangos ar label unrhyw ddiodydd alcoholaidd;
- (c) yn olaf, mae'r Llywodraethau'n cynnig pan fydd mwy nag un math o rawnwin yn cael eu defnyddio i gynhyrchu gwin cymysg a'u bod yn cael eu dangos ar y label, ei bod yn rhaid i'r mathau o rawnwin sy'n cael eu henwi gyfrif am o leiaf 95% o gyfaint y gwin.

Mae Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn cynnal yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â diwygiadau i'w deddfwriaeth berthnasol i ddiweddarau'r dull gweithredu ar gyfer diwygio labelu alcohol ym Mhrydain Fawr. Mae safonau marchnata yn fater datganoledig. Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn diwygio deddfwriaeth ar gyfer eu tiriogaethau eu hunain.

Mae Gogledd Iwerddon yn rhwym wrth Brothocol Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu bod Rheoliadau canlynol yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon: Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn 2019/33 (UE) sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor. Mae'r Rheoliadau UE hynny'n cael effaith yng Ngogledd Iwerddon fel y maent yn yr UE, ac o ganlyniad ni all Gogledd Iwerddon ddiwygio ei reoliadau labelu alcohol. Mae ein holl newidiadau arfaethedig wedi'u dadreoleiddio. Bydd hyn yn sicrhau bod busnesau'n dal i allu defnyddio label sy'n gydnaws ar gyfer y ddwy farchnad ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn amharu ar fasnach.

Y cefndir a'r cynigion

Cynnwys alcohol gwin

Mae Erthygl 44 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 2019/33 (Cryfder Alcohol Gwirioneddol) yn mynnu bod cynnwys alcoholaidd gwin yn cael ei ddangos mewn unedau cyfan neu unedau cyfan a hanner. Er enghraifft, gellir marchnata gwin ar 12% neu 12.5%.

Rydyn ni'n bwriadu diwygio Erthygl 44 mewn ffordd a fydd hefyd yn caniatáu i win gael ei farchnata i ddegfed uned canran, er enghraifft 12.2% mewn achosion priodol. Bydd hyn yn golygu bod marchnata cynnwys alcohol gwin yn cyd-fynd â'r gofynion labelu ar gyfer diodydd alcoholaidd eraill. Ar ben hynny, bydd hyn yn rhoi'r opsiwn i gynhyrchwyr labelu cynnwys alcohol yn fwy cywir i ddefnyddwyr.

Yn amodol ar gydymffurfio â'r darpariaethau goddefiant sy'n berthnasol ar hyn o bryd, ni fydd ein cynigion yn effeithio ar allu cynhyrchwyr i ddangos cynnwys alcohol y gwin sy'n cael ei farchnata yn y DU i'r uned gyfan neu hanner agosaf fel sy'n cael ei ganiatáu ar hyn o bryd.

Bydd y newid hwn yn mynd i'r afael â'r gofyniad a nodir ym mharagraff 12 o Adran A (gwin) Atodiad 7A i'r UK-NZ FTA.

C1. Pa effaith, os o gwbl, fydd y newidiadau i labelu cynnwys alcohol yn ei chael ar farchnad diodydd alcoholaidd y Deyrnas Unedig neu ar ddefnyddwyr?

Labelu gwin sydd â mwy nag un math o rawnwin

Mae Erthygl 50(1) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2019/33 a ddargedwir yn nodi'r rheolau sy'n ymwneud â labelu mathau o winwydd grawnwin ar gyfer gwin. Mae'r rheolau'n datgan, pan ddangosir mwy nag un math o rawnwin y dylai'r mathau hyn gyfrif am 100% o'r gwin yn y botel, sy'n golygu ei bod yn rhaid dangos yr holl fathau o rawnwin ar y

label. Mae'r rheolau hefyd yn mynnu pan ddangosir un math o rawnwin ar y label, y dylai'r math hwnnw gyfrif am o leiaf 85% o'r gwin.

Rydyn ni'n bwriadu diwygio'r rheolau ar ddangos mwy nag un math o rawnwin ar y label. Yn y dyfodol, bydd yn rhaid i'r mathau a restrir ar y label ffurfio o leiaf 95% o'r gwin yn hytrach na'r 100% llawn. O ganlyniad, bydd 5% o'r gwin yn gallu dod o fathau o rawnwin nad ydynt yn cael eu dangos ar y label.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi y gallai'r newidiadau hyn fod o fudd i gynhyrchwyr yn y Deyrnas Unedig: efallai na fydd yn bosibl nac yn ddymunol dangos nifer fawr o fathau gwahanol o rawnwin ar y label, yn enwedig os mai dim ond canran fach iawn o'r cynnyrch terfynol yw'r rhain. Bydd y newid hwn hefyd yn adlewyrchu'r arferion gwneud gwin cyfredol yn Seland Newydd ac yn mynd i'r afael â'r gofyniad a nodir ym mharagraff 14 o Adran A (Gwin) Atodiad 7a i'r UK-NZ FTA.

C2. Pa effaith, os o gwbl, fydd y newidiadau i labelu mwy nag un math o rawnwin yn ei chael ar farchnad gwin y Deyrnas Unedig neu ar ddefnyddwyr?

Lleoliad y term 'alc/vol' ar gyfer pob cynnyrch diod alcoholaidd

Mae Atodiad 12 Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 a ddargedwir ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (cryfderau alcohol) yn datgan pan fydd cynnwys alcohol rhifol diod alcoholaidd yn cael ei ddangos ar y label neu ar y deunydd marchnata, rhaid i'r term 'alc/vol' fod o flaen y ffigur: er enghraifft, 'alc 12.5% vol'.

Ar gyfer gwin, mae Atodiad 44 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/33 o'r enw *Cryfder Alcohol Gwirioneddol* yn nodi, pan fydd cynnwys rhifol alcohol diod yn cael ei ddangos ar y label neu'r deunydd marchnata, mai dim ond y termau 'actual alcoholic strength', 'actual alcohol' neu 'alc'. sy'n cael ei ragflaenu.

Rydyn ni'n bwriadu diwygio'r ddau reoliad i ganiatáu i'r term 'alc/vol' ymddangos ar ôl y ffigur cynnwys alcoholaidd: er enghraifft, '12.5% alc/vol'. Bydd yr opsiwn hwn yn golygu na fydd angen ail-labelu cynnyrch ar gyfer marchnadoedd y DU na Seland Newydd.

Bydd y newid hwn yn mynd i'r afael â'r gofyniad a nodir ym mharagraff 7 o Adran B (gwirodydd wedi'u distyllu) Atodiad 7A i'r UK-NZ FTA.

C3. Pa effaith, os o gwbl, fydd y newidiadau i labelu cynnwys alcohol yn ei chael ar farchnad diodydd alcoholaidd y Deyrnas Unedig neu ar ddefnyddwyr?

Y Broses Ddeddfwriaethol

Mae Defra'n cynnig gweithredu'r newidiadau i labelu cynnwys alcohol yn Lloegr drwy is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau a roddwyd gan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (Diogelwch Bwyd a Diogelu'r Defnyddiwr) ac adran 37 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (Safonau Marchnata). Bydd newidiadau i labelu mwy nag un math o rawnwin hefyd yn cael eu gwneud o dan adran 37 y Ddeddf Amaethyddiaeth.

Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu gweithredu'r newidiadau mewn perthynas â'r Alban drwy bwerau a roddwyd gan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ac adran 9 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Data a Chyfreithiau'r UE a Ddargedwir) (Yr Alban) 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu'r newidiadau mewn perthynas â Chymru drwy bwerau a roddwyd gan adran 16(1)(e) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a pharagraff 16 o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

Amseriad a hyd yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Tachwedd 2022 a bydd yn derbyn ymatebion am 3 wythnos. Daw'r ymgynghoriad i ben am un funud i hanner nos ar 23 Tachwedd 2022. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau neu os hoffech dderbyn copïau caled o'r dogfennau a rennir, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at: Wine.Exports@defra.gov.uk

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn rhoi'r crynodeb hwn ar GOV.UK.

Bydd y crynodeb hwn yn cynnwys rhestr o enwau'r sefydliadau a ymatebodd. Ni fydd yn rhestru enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill (ar gyfer ymatebion gan sefydliadau nac unigolion).

Byddwn yn cadw copi o'r ymatebion er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld; bydd copïau ar gael ar gais. Hefyd, caiff aelodau'r cyhoedd ofyn am gopi o ymatebion o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth.

Mae'n bosibl cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018 yw'r rhain yn bennaf. Mae gennym ymrwymïadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol.

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod awdurdodau cyhoeddus yn rhwym wrth y Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth ac felly efallai y bydd yn rhaid iddynt ddatgelu rhywfaint o'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu neu'r cyfan. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe baech chi'n gallu esbonio wrthym pam rydych chi'n ystyried bod yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn gyfrinachol. Os byddwn ni'n cael cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Adran.

Cyhoeddir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r egwyddorion ymgynghori a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r rhain ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>